

**Cwrs Sylfaenol Ceredigion
Uned Un Deg Tri**

*Dweud ble ro'ch chi'n byw a gweithio ac ati
Saying where you used to live and work, etc.*

Ble (r)o'ch chi'n byw, cyn symud i ..? *Where did you live before moving to ..?*
Ble (r)o't ti'n byw _____?

(R)o'n i'n byw yn **Llundain** *I lived in London*
(R)o'n i'n byw yn Lloegr
(R)o'n i'n byw yn yr Alban
(R)o'n i'n byw yng Ngogledd Cymru

Do'n i ddim yn byw yng Nghymru *I didn't live in Wales*
Do'n i ddim yn nabod Ffred
Doedd e ddim yn byw yng Nghymru
Doedd hi ddim yn nabod Ffred

(R)o'n ni'n byw yn _____
(R)o'n nhw'n byw yn _____

Ble (r)o(e)dd e / hi'n arfer gweithio? *Where did he used to work?*

(R)o(e)dd e'n arfer gweithio mewn ysgol *He used to work in a school*
(R)o(e)dd hi'n arfer gweithio ar ffarm
(R)o(e)dd e'n arfer gweithio i'r cyngor
(R)o(e)dd hi'n arfer gweithio mewn coleg

O'ch chi'n blentyn drwg amser o'ch chi yn yr ysgol? *Were you a naughty child when you were at school?*
O't ti'n blentyn drwg amser o't ti yn yr ysgol?

O'n, ro'n i'n jawl bach drwg *Yes, I was a little devil*
Nac o'n, ro'n i fel angel

Geirfa

symud (symud-)	- to move
gogledd	- north
de	- south
dwyrain	- east
gorllewin	- west
jawl (diawl)	- devil
rhwng	- between
jiw, jiw!	- Well I never
angel	- angel
tan	- until
drws nesa i (TM)	- next door to
drwg	- bad
(am)ser / pan (TM)	- when

Deialog

Ffred: **Ble (r)o't ti'n byw cyn symud yma?**
Sandra: **Yn Llanelli.**
Ffred: **Pryd (r)o't ti'n byw yn Llanelli?**
Sandra: **Rhwng 1978 ac 1982.**
Ffred: **Jiw, jiw - (r)o'n i'n byw yn Llanelli tan 1979.**
Sandra: **Ble yn Llanelli (r)o't ti'n byw?**
Ffred: **Yn Stryd y Pwll**
Sandra: **O't ti'n nabod Tom Morris?**
Ffred: **O'n, wrth gwrs. (R)o'n i'n byw drws nesa i Tom.**
Sandra: **Mae pawb yn nabod pawb yng Nghymru.**

Gwaith Cartre Uned 13

Gorffennwch:

1. _____ i'n arfer byw yn Llundain.
2. _____ i ddim yn byw yng Nghymru.
3. _____ chi'n blentyn drwg amser ro'ch chi yn yr ysgol?
4. Ro'n i'n byw drws _____ i Sandra.
5. _____ pawb yn nabod pawb yng Nghymru.
6. Ble oedd e'n _____ gweithio?

Cyfieithwch:

1. Everyone knows everyone in Wales.
2. I lived next door to Fred.
3. Did you know Sandra?
4. I lived in Carmarthen until 1971.
5. I was a little devil when I was in school.
6. She used to work in the Black Lion.
7. I didn't know Tom.
8. I was like an angel.

Atebwch:

- C. O't ti'n siarad Cymraeg amser o't ti'n blentyn? A. O'n, ro'n i'n siarad tipyn bach
- C. O't ti'n darllen llawer? A. _____
- C. O't ti'n mynd i'r ysgol Sul? A. _____
- C. O't ti'n edrych ar *Thunderbirds*? A. _____
- C. O't ti'n chwarae rygbi? A. _____

Pwyntiau i'w cofio:

1. I was / I used to

(R)o'n i
(R)o't ti
(R)o(e)dd e / hi
(R)o(e)dd y plant
(R)o'n ni
(R)o'ch chi
(R)o'n nhw

Full written form

[Roeddwn i]
[Roeddet ti]

[Roedden ni]
[Roeddech chi]
[Roedden nhw]

(The shortened forms are acceptable when written as well.)

2. The answer to a question beginning with **O't ti** or **O'ch chi** is **O'n** / **Nac o'n** (**Wên** / **Na wên** in the Cardigan area and Pembrokeshire); **Oeddwn** / **Nac oeddwn** in formal Cymraeg.